# Dameg yr Hedyn Mwstard



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Drwy gydol ei weinidogaeth, dywedodd Iesu lawer o ddamhegion i helpu i esbonio gwirionedd Beiblaidd. Yn y wers hon, byddwn yn astudio Dameg yr Hedyn Mwstard a geir yn Marc 4:30-32.

Prif Bwyntiau:

1. Mae Duw yn defnyddio pethau bychain at ddibenion mawr.
2. Ddylen ni byth edrych lawr ar y pethau bychain.
3. Mae Teyrnas Dduw yn tyfu ledled y byd.

## Canllaw Gwers

Mae llawer o bethau sy'n dechrau’n fach yn mynd yn fawr. Gofynnwch i'ch plentyn enwi rhai pethau sy'n dechrau'n fach ond sy'n tyfu'n fawr. Er enghraifft, mae hadau'n fach ond yn troi'n blanhigion mawr. Mae pobl yn dechrau fel babis ond yn tyfu i fod yn oedolion. Mae y'n troi'n estrys.

Chwiliwch am falŵn heb ei chwyddo (gallwch ddefnyddio stribyn o wm cnoi hefyd).) Soniwch ba mor fach a dibwys mae'n edrych. Yna dechreuwch chwythu'r balŵn i fyny nes ei fod yn fawr. (Os yw'n bosib, ysgrifennwch adnod cof o’r Beibl ar y balŵn sy'n ymddangos pan fydd yn fawr.) Pe byddem yn anwybyddu'r darn bach o rwber a dweud nad oedd yn ddim fydden ni byth yn gallu mwynhau balŵn mawr.

Atgoffwch eich plant fod Iesu wedi byw mewn cyfnod hollol wahanol i'n cyfnod ni. Pan ddechreuodd Iesu bregethu'r Efengyl am y tro cyntaf, nid oedd ganddo ryngrwyd na theledu. Doedd e ddim yn gallu dal awyren Rhowch dywel papur neu napcyn ar fwrdd. Cymerwch ddarn bach o sbwng gwlyb a'i osod yn y canol. Mae'r sbwng yn ymddangos yn fach iawn, ond bydd y dŵr yn y sbwng yn lledaenu ac yn gwlychu'r tywel papur cyfan.

Gan ddefnyddio map neu glôb, pwyntiwch at Israel lle dechreuodd Iesu ar ei weinidogaeth. Tynnwch sylw at Rufain, Corinth, a llefydd eraill y Beibl lle aeth yr apostolion â’r Efengyl hefyd .(Byddwn yn edrych ar y teithiau hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn). Edrychwch ar wledydd eraill ar y map ac esboniwch bod cenhadon wedi mynd â geiriau Iesu yno hefyd. Os ydych chi neu'ch eglwys yn cefnogi cenhadon mewn gwlad, efallai y byddwch yn gwneud astudiaeth fwy manwl. Edrychwch ar luniau o'r cenhadon, Gweddïwch y bydd y Gair maen nhw'n ei bregethu yn newid bywydau ac y bydd geiriau Iesu yn tyfu mewn calonnau ac yn newid pobl. Darllenwch Eseia 55:11. Efallai y byddwch chi'n dewis ei gofio gyda'ch gilydd.

Atgoffwch eich plentyn bod Duw yn gallu defnyddio'r lleiaf o weithredoedd. Cyfeiriwch at ginio'r bachgen a ddarparodd ar gyfer miloedd o bobl pan wnaeth wyrth  gyda’r pysgod a'r bara.

Meddyliwch pa ffyrdd allwch chi helpu i ledaenu'r Efengyl trwy wneud pethau bychain? Allech chi ddosbarthu cardiau i ffrindiau gydag adnodau arnyn nhw? Gwahodd rhywun i'r eglwys? Dysgu cân Feiblaidd i ffrindiau? Bod yn garedig wrth rywun?

Plannwch hadau blodau  mewn potiau bach unigol. Dewiswch rai ffrindiau. Bob tro rydych chi’n dyfrio neu'n trin yr  hadau, gweddïwch y bydd Duw yn tyfu Ei air yng nghalonnau'r unigolion hyn. Pan fydd y planhigion yn fawr, gallwch  eu rhoi i'r ffrindiau hyn.

Gweddïwch a diolchwch i Iesu fod ei Air yn gallu tyfu a newid bywydau. Gofynnwch iddo dyfu Ei eiriau yn eich calon.

© 2023 truewaykids.com



Tyfodd y planhigyn mor fawr fel bod yr adar yn gwneud nythod ac yn byw yn y goeden.

Mae'r hedyn mwstard yn ein hatgoffa bod y pethau lleiaf rydyn ni'n eu gwneud yn nheyrnas Dduw yn gallu tyfu'n rhywbeth mwy nag y gallen ni erioed ei ddychmygu.




# Yr Hedyn Mwstard



Dywedodd Iesu ddameg wrth y bobl am hedyn mwstard.

Roedd e eisiau dysgu ei ddilynwyr sut le oedd teyrnas Dduw.

Un diwrnod, aeth ffermwr i blannu hadau yn ei gae.




Pan edrychodd ar yr hedyn mwstard, roedd yn fach iawn.

Nid oedd yn edrych yn bwysig.

PLannodd gyda gofal.

Gwnaeth dwll, gorchuddio'r hedyn â phridd, a rhoi dŵr iddo.





Yn araf bach, tyfodd yr hedyn bach yn blanhigyn bychan.

Bob dydd, roedd y ffermwr yn dyfrio'r planhigyn, a'r haul yn tywynnu arno.

Tyfodd y planhigyn yn fwy ac yn fwy.

# Gêmau a Gweithgareddau

## Mynd ar helfa ddail

Ewch ag ychydig o bapur a chreonau gyda chi ar helfa ddail. Pan ddowch o hyd i goeden, gwnewch rwbiad o’r rhisgl a’r dail  os dewch o hyd i rai ar y ddaear. Gallwch geisio adnabod y goeden. Mae yna apiau a lluniau i ’w hargraffu sy'n gallu eich helpu.

Gwnewch hyn yn fwy o hwyl trwy geisio dod o hyd i'r hiraf, ehangaf, ac ati





## Her nythu adar

Casglwch frigau, gwair hir, gwellt ac ati. Ceisiwch wneud nyth aderyn sy'n ddigon cryf i ddal ŵy (gall wy plastig fod yn lanach :D ). Bydd angen i chi blethu’r brigau at ei gilydd i wneud siâp nyth sylfaenol, cyn defnyddio glaswellt, gwellt a dail wedi disgyn i lenwi unrhyw lefydd gwag. (Dan do: Defnyddiwch wellt a phapur wedi'i rwygo).


## Rhas Gyfnewid Plannu

Bydd angen o leiaf dau berson arnoch ar gyfer y gêm hon. Rhowch gompost neu bridd ar un ochr a photiau gardd ar y llall. Defnyddiwch o leiaf dri i bob tîm. Y nod yw llenwi eich potiau gardd yn gynt na'r grwpiau eraill. Dim ond un pot y gallwch ei gymryd ar y tro i'w lenwi.




© 2023 truewaykids.com


| Does dim angen | Mae angen ar blanhigion |
| --- | --- |
| | |






© 2023 truewaykids.com

# Dail ychwanegol










2 3 4 5





© 2023 truewaykids.com

# Dilyn y llinellau



© 2023 truewaykids.com

# Dilyn y cardiau











© 2023 truewaykids.com

# Cyfateb i'r dail



© 2023 truewaykids.com


# Coeden hadau




## Yr hyn sydd ei angen arnoch:

Tudalen dempled
Pensiliau lliw
Glud
Hadau pwmpen (neu hadau mawr eraill)

## Beth i'w wneud:



Lliwiwch y dudalen dempled.



Ychwanegwch smotiau glud i'r gangen.



Gludwch yr hadau i wneud dail. Gadewch iddynt sychu.

© 2023 truewaykids.com

© 2023 truewaykids.com






© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

Dameg yr Hedyn Mwstard - Stori o'r Beibl i blant
https://youtu.be/NvRT2GW8d88
Read Your Bible, Pray Every Day
https://youtu.be/PYRyJxs9CG4
Faith as Small as a Mustard Seed
https://youtu.be/ggef4J5oYG0
God Uses Kids
https://youtu.be/dSud8amtHsg





# Amser Gweddi

Diolch i Dduw ei fod yn adeiladu Ei Deyrnas. Gofynnwch iddo eich helpu i fod yn ffyddlon yn y pethau bychain ac i'w wasanaethu Ef unrhyw ffordd y gallwch.

# Wythnos Nesaf

## Y Samariad Da

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com